Gwarantau

Efallai y cynigir gwarant i chi wrth i chi brynu rhai nwyddau arbennig (er enghraifft nwyddau trydanol) neu pan fyddwch chi'n talu am wasanaethau megis gwaith adeiladu. Gall y warant roi'r hawl i chi i gael y nwyddau wedi'u hamnewid neu eu hatgyweirio, neu gywiro unrhyw waith diffygiol. Ni all gwarant gymryd eich hawliau cyfreithiol presennol nac unrhyw hawliau ychwanegol sy'n gynwysedig yn eich cytundeb oddi wrthych ond fe all roi **gwarchodaeth ychwanegol** i chi.

Gwarantau am ddim

Mae gwarant am ddim ar gyfer nwyddau, yn cynnwys nwyddau a gyflenwir gyda gwasanaeth, yn rhwymo'n gyfreithiol y person sy'n cynnig y warant os prynwyd y nwyddau ar neu ar ôl 31 Mawrth 2003. Fel arfer darperir gwarantau am nwyddau gan y gwneuthurwr ac mae'n rhoi hawliau ychwanegol i chi yn ychwanegol at yr hawliau sydd gennych yn barod yn erbyn y gwerthwr.

O 31 Mawrth 2003 ymlaen, os rhoddir gwarant am ddim gyda nwyddau a werthir yn y DU, rhaid iddi fod mewn Saesneg clir ac yn rhwydd i'w deall. Rhaid iddi nodi beth yw hyd y warant, ac enw a chyfeiriad y gwarantwr. Mae gennych hawl i weld copi ysgrifenedig o'r warant os gofynnwch am un, a rhaid ei ddarparu o fewn amser rhesymol. Os na chydymffurfir â'r gofynion hyn fe allwch gwyno i Gyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Bydd gwarantau am ddim ar gyfer gwasanaethau, neu nwyddau a brynwyd cyn 31 Mawrth 2003, yn **ymrwymol** dim ond os gallwch chi ddangos ei fod yn rhan o'ch **cytundeb** gyda **chyflenwr** y nwyddau neu'r gwasanaethau, neu gyda'r gwneuthurwr. Er mwyn bod yn rhan o'ch cytundeb, rhaid bod telerau'r warant wedi'u cyflwyno'n glir pan brynoch chi'r nwyddau neu'r gwasanaethau. Mae rhai cwmnïau sy'n cyflenwi gwasanaethau yn cynnig gwarantau **tymor hir** o ddeng mlynedd a mwy. Bydd y rhain o werth cyfyngedig oni bai eu bod yn cael eu cefnogi gan gwmni yswiriant gan y byddan nhw'n dibynnu ar y cwmni i fod mewn busnes sawl blwyddyn yn ddiweddarach.

Gwarantau a warantïau estynedig

Os ydych chi'n talu am warant, fel arfer rhoddir **gwarant estynedig** neu **waranti** i chi fydd yn cychwyn ar ddiwedd unrhyw warant y gwneuthurwr. Bydd y warant estynedig o hyd yn rhwymo'n gyfreithiol. Fel arfer cwmni gwahanol fydd yn ei drefnu, yn wahanol i'r masnachwr lle prynoch chi'ch nwyddau. Os fyddwch chi'n gwneud hawliad ar warant estynedig, efallai y collwch chi **hawliau** cyfreithiol eraill sydd gennych yn erbyn y masnachwr. Os mai newydd brynu'r nwyddau yr ydych, efallai y bydd yn well i chi hawlio yn erbyn y masnachwr lle prynoch chi'r nwyddau.

Cyn cytuno i brynu gwarant estynedig, fe fydd angen i chi edrych ar:

- yr hyn mae'r warant yn ei warchod. Mae rhai gwarantau estynedig yn gwarchod methiant mecanyddol yn unig a dim traul a gwisgo. Bydd rhai yn disgwyl i chi dalu costau llafur.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwiriwch beth **sy'n** cael ei warchod cyn penderfynu ei brynu; *a*

- a yw'r warant estynedig wedi'i **gwarantu** gan gwmni yswiriant neu beidio. Os ydyw'r cyflenwr yn mynd allan o fusnes, fe ddylech chi o hyd fod yn gallu hawlio oddi wrth y gwarantwyr am unrhyw waith sydd angen ei wneud o dan y warant; *a*
- pryd mae'r waranti estynedig yn cychwyn. Efallai y gwelwch chi fod eich **hawliau presennol** yn **ddigonol** beth bynnag. Os cewch chi broblemau yn syth ar ôl prynu, fe ddylech chi gwyno wrth y masnachwr yn hytrach na'r cwmni gwarant (heblaw hynny fe allech chi golli eich hawliau yn erbyn y masnachwr)
- os ydyw'r nwyddau neu wasanaeth yn debygol o gael llawer o ddefnydd, efallai y byddai'n werth ystyried gwarant estynedig os bydd hwn yn eich gwarchod rhag traul a gwisgo neu ddifrod damweiniol; *a*
- a ydych eisoes wedi'ch **gwarchod** gan eich **yswiriant cynnwys y cartref**; *a*
- a fyddai'n rhatach i brynu **polisi yswiriant ar wahân** i warchod nifer o eitemau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y telerau a'r amodau cyn prynu gwarant estynedig a gofynnwch i'r gwerthwr am esbonio unrhyw beth yr ydych yn ansicr yn ei gylch.

Warantïau estynedig i nwyddau trydanol
Mae gennych hawliau ychwanegol os ydych yn prynu waranti estynedig (a elwir weithiau yn gytundeb gwasanaeth) i warchod nwyddau trydanol domestig. Rhaid i fasnachwyr:

- arddangos pris y waranti wrth ochr y nwyddau
- rhoi dyfynbris ysgrifenedig i chi, pan wneir cais, am bris y waranti. Mae'n rhaid iddynt gadw at y pris hwn o dan y gyfraith os ewch chi nôl o fewn 30 diwrnod i brynu'r waranti ar ôl i chi brynu'r nwyddau
- eich hysbysu o'ch hawliau i brynu'r waranti yn rhywle arall ac y gallai'r eitem drydanol brynoch chi gael ei warchod yn barod gan eich yswiriant cynnwys y cartref.

Mae gennych yr hawl hefyd i ganslo'r waranti o fewn 45 diwrnod a chael ad-daliad llawn os nad ydych chi wedi hawlio. Os byddwch chi'n hawlio ar y waranti, fe allwch chi ddal i ganslo a chael ad-daliad pro-rata ar unrhyw adeg hyd nes diwedd y cytundeb gwasanaeth.

Oes gwerth mewn hawlio

Er bod gyda chi **hawliau presennol**, efallai y byddwch am hawlio ar y warant os :

- yw'r masnachwr yn annhebygol o roi'r hyn yr ydych chi ei eisiau ac y bydd yn **haws** i gael **atgyweiriad** neu **amnewidiad** o dan y warant
- ydyw'n **anghyfleus** i **ddychwelyd** y nwyddau i siop ac yn haws i'w dychwelyd drwy'r post at y gwneuthurwr neu ddosbarthwr
- ydyw'r cyflenwr **wedi mynd allan o fusnes**
- **prynwyd** y nwyddau **dramor** ac mae gan y masnachwr gangen y DU

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- cynigir **bargen well** i chi o dan y warant
- derbyniwyd y nwyddau fel **anrheg** neu **wobr** sy'n golygu na fydd y gwneuthurwr na'r gwerthwr yn eich helpu.

Gwneud cais

Os ydych chi am hawlio ar y warant neu'r waranti, fe fydd yn rhaid i chi yn gyntaf wirio:

- ei fod yn **gwarchod** eich problem. Bydd angen i chi brofi hyn
- os ydyw'n **ddilys** a'ch bod chi o fewn y terfyn amser

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw waith atgyweirio eich hun ac yna hawlio'r arian yn ôl oddi wrth y cwmni roddodd y warant. Dylech wirio'r drefn yn y warant cyn gwneud dim byd.

Cofiwch efallai y bydd dal i fod hawliau gennych yn erbyn y cyflenwr (gweler uchod)

Os penderfynwch chi ddefnyddio'r warant, fe fydd angen i chi:

- **gysylltu** cyn gynted ag y dowch o hyd i'r diffyg. Ysgrifennwch at y cwmni roddodd y warant gan amgáu **copi** ohoni. Fe fydd angen i chi roi manylion o ble a phryd y prynoch chi'r nwyddau neu wasanaethau, disgrifio'r broblem a phryd yr ymddangosodd gynta' a'r camau yr ydych am eu cymryd yn enw'r warant (fel arfer bydd hyn yn **amnewidiad** neu **atgyweiriad**) . Peidiwch â mynnu rhywbeth nad yw'n cael ei warchod gan eich gwarant.
- os yw'r cwmni roddodd y warant wedi mynd allan o fusnes, ysgrifennwch at y cwmni yswiriant oedd yn gwarantu'r warant
- **ysgrifennwch at gyflenwr** y nwyddau neu'r gwasanaethau, gan esbonio eu bod yn anfoddhaol a'ch bod yn hawlio ar y warant. Dylech wneud yn glir fod y cyflenwr yn dal yn gyfrifol am y nwyddau neu wasanaethau diffygiol ac y byddwch chi yn hawlio atgyweiriad, amnewidiad neu iawndal yn ei erbyn ef/hi os na chaiff y broblem ei datrys ar ôl defnyddio'r warant.
- **ysgrifennwch at y cwmni credyd,** os prynoch chi'r nwyddau neu wasanaethau ar gredyd oherwydd fe allai fod yr **un mor atebol**.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cyflenwr yn mynd allan o fusnes
- Nwyddau
- Credyd
- Gwasanaethau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Gorffennaf 2006, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr